

Cynnwys



Dod i'ch adnabod



Eich cefnogi, eich ffordd chi



Cadw'n iach



Eich bywyd, eich cymuned



Eich hawliau



Cyflwyniad gan y rheolwr

Rydym am i chi fod yn hapus yn byw yma ac rydym wedi cynhyrchu'r Pecyn Croeso i sicrhau bod y symud i'ch cartref newydd mor llyfn â phosibl. Rydym yn gobeithio y bydd y Pecyn Croeso yn eich helpu i setlo i mewn drwy eich hysbysu am eich hawliau a hawliadau, gan eich helpu i ddeall sut y byddwch yn cael eich cefnogi a thrwy egluro sut y gallwch chi gadw mewn cysylltiad â'ch cymuned a'r bobl sy'n bwysig i chi.

Mae dysgu beth sy'n bwysig i bob un ohonom yn ein helpu i ddeall pam ein bod yn unigryw a sut y gallwn gefnogi ein gilydd yn dda. Mae proffiliau un dudalen yn ffordd wych i'n galluogi i wneud hyn gan eu bod yn cipio rhinweddau, galluoedd, diddordebau, hoffterau ac anghenion pob unigolyn. Trwy ddefnyddio proffiliau un dudalen rydym hefyd yn gallu cysylltu pobl o'r un anian gyda'i gilydd, gan greu cyfeillgarwch a gwell cefnogaeth.

O fewn y pecyn hwn rhoddwyd pedwar proffil un tudalen i chi, y rhai sy'n perthyn i dri aelod o'ch tîm o staff, a minnau. Yr aelodau hyn o staff fydd eich cysylltiadau yn ystod y cyfnod pontio hwn a fydd wrth law i'ch cefnogi mewn unrhyw ffordd y gallant. Nid yw hyn yn golygu nad yw aelodau eraill o'ch tîm o staff yn gallu eich helpu - mae'r tîm cyfan yn hapus i'ch cefnogi mewn unrhyw ffordd bosibl. Mae gennym bolisi drws agored cyflawn felly cofiwch fynd at unrhyw un ohonom ar unrhyw adeg.



Cyflwyniad gan y rheolwr

Parhad....

Credwn yn gryf bod eich lles emosiynol yr un mor bwysig â'ch iechyd ac anghenion corfforol, a byddwn yn gweithio'n galed gyda chi, eich teulu a'ch ffrindiau i sicrhau bod eich holl anghenion yn cael eu diwallu. Yn ogystal â gwybodaeth gofal iechyd allweddol, rydym wedi cynnwys gwybodaeth ar gynnal eich cysylltiadau gyda'r gymuned yn y Pecyn Croeso. Yr hyn sy'n bwysig yw mai hwn yw eich cartref ac mae teulu a ffrindiau yn gallu parhau i'ch cefnogi fel y maent wedi ei wneud erioed. Bydd ymwelwyr, diwrnodau allan, gweithgareddau a chyfranogiad mewn grwpiau rheolaidd bob amser yn cael eu cefnogi a'u hannog.

Mae ein pwyslais ar ansawdd da, gofal gydol oes, ac rydym wedi cynnal y rhaglen gofal lliniarol Chwe Cham at Lwyddiant i sicrhau bod y cymorth a roddwn i chi a'r bobl sy'n bwysig i chi yn benodol i'ch anghenion a dewisiadau unigol. Mae'n bwysig ein bod yn datblygu yn barhaus ac yn myfyrio ar y gefnogaeth a roddwn a bydd unrhyw argymhellion sydd gennych bob amser yn cael eu croesawu a'u gwerthfawrogi.

Diolch yn fawr

Y Rheolwr



Eich dewis, eich rheolaeth

Rydym eisiau i chi gael cymaint o ddewis a rheolaeth yn eich bywyd a dros eich cefnogaeth ag y bo modd. Byddwn yn dechrau drwy ddysgu sut yn union yr ydych am gael eich cefnogi, o pan fyddwch yn codi yn y bore, pa mor aml rydych am gael cawod neu a ydych am gael bath, i'r hyn yr ydych yn ei wneud yn ystod y dydd a'ch trefn yn ystod min nos.

Rydym eisiau i'ch tîm staff ddeall yn glir yr hyn sydd angen ei wneud ac ym mha ffordd – eich ffordd chi. Mae eich tîm yma ar gyfer eich lles personol chi, nid yn unig i'ch cadw chi'n iach ac yn ddiogel.



Arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Er mwyn sicrhau ein bod yn eich cefnogi yn y ffordd yr ydych eisiau, rydym yn defnyddio arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac offer meddwl i'n helpu ni.

Proffiliau un dudalen

Rydym yn defnyddio proffil un dudalen fel man cychwyn i grynhoi'r hyn yr ydym yn ei wybod sy'n bwysig i chi a sut i'ch cefnogi'n dda. Bydd eich proffil un dudalen yn cipio hanfod pwy ydych chi, yr hyn sy'n gwneud bywyd yn dda i chi a sut mae cymorth da yn edrych o'ch safbwynt chi, yn ogystal â'r hyn mae eraill yn ei werthfawrogi amdanoch chi. Yr arbenigwr ar gynnwys proffil un dudalen yw chi a'r bobl sy'n eich caru, yn gofalu ac yn gwybod amdanoch chi.

Mae gennym hefyd broffiliau un-dudalen ar gyfer aelodau'r tîm staff er mwyn inni wybod sut i'w cefnogi nhw hefyd. Bydd gennym broffil bach un dudalen wedi'i harddangos i'r holl aelodau er mwyn i chi a'ch teulu a'ch ffrindiau ddysgu mwy am yr unigolion sy'n eich cefnogi chi. Rydym yn gobeithio y byddwch yn darganfod bod gennych ddiddordebau a rennir a nodweddion personoliaeth gydag aelodau o'ch tîm staff.

Cynlluniau Cymorth Personol

Bydd cynlluniau cymorth personol yn rhoi gwybodaeth fanwl am y ffordd orau i'ch cefnogi chi o'ch safbwynt chi a bydd yn casglu gwybodaeth allweddol ynghylch risgiau a'r hyn mae eich tîm staff angen wybod i'ch cadw chi a'r rhai o'ch cwmpas yn ddiogel ac yn iach.



Welcome Pack
your guide to services & living well

Arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Parhad....



Siartiau cyfathrebu teulu

Rydym yn canolbwyntio ar eich cadw mewn cysylltiad gyda'r bobl sy'n eich caru, yn gofalu amdanoch ac yn eich adnabod chi orau. O aelodau'r teulu a ffrindiau i gymdogion ac aelodau o'ch cymuned ffydd, mae'n bwysig ein bod yn gwybod pwy i'w cynnwys yn eich gofal a'ch cefnogaeth, a sut a phryd sydd orau i gysylltu â nhw.

Cofnod dysgu

Byddwn yn defnyddio cofnod dysgu ar sail barhaus i'n helpu i ddeall beth sy'n gweithio a beth nad yw'n gweithio i chi, a beth rydym yn ei ddysgu fydd yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu a diweddarau eich cynlluniau cymorth personol a phroffil un dudalen. Gall cofnod dysgu fod yn ddefnyddiol iawn os ydych yn rhoi cynnig ar rywbeth newydd, neu os ydych angen cymorth arbennig mewn maes penodol.

Adolygiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Mewn adolygiad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, byddwn yn archwilio beth sy'n digwydd yn eich bywyd o'ch safbwynt chi a safbwyntiau'r rhai sy'n eich adnabod chi orau. Gan ddefnyddio'r wybodaeth yr ydym yn ei chasglu o adnoddau meddwl sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, megis cofnod dysgu, byddwn yn adolygu eich cynlluniau cymorth personol a datblygu canlyniadau a chamau gweithredu ar gyfer newid.



Welcome Pack
your guide to services & living well

Mwy o wybodaeth

Helen Sanderson Associates www.helensandersonassociates.co.uk



Cymorth gofal iechyd

Fel unigolyn sy'n byw mewn cartref preswyl mae gennych hawl i'r un gefnogaeth gofal iechyd â rhywun arall sy'n byw yn eu cartref eu hunain.

Dyma rai cysylltiadau a gwybodaeth ddefnyddiol:-

Gwasanaethau trin traed

Mae gennych hawl i weld ciropodydd yn y cartref pan fyddwch angen. Codir tâl am y gwasanaeth hwn. Siaradwch gyda Rheolwr y Cartref neu aelod o'ch tîm staff a fydd yn trefnu hyn i chi.

Nyrsys Ardal Cymunedol

Fel cartref preswyl ni allwn ymgymryd ag unrhyw weithdrefnau nyrsio. Oherwydd hyn, mae gennym berthynas dda iawn gyda'r tîm nyrs ardal gymunedol. Bydd nyrs ardal yn ymweld â chi ym mhreifatrwydd eich ystafell os bydd eich meddyg teulu o'r farn bod hyn yn angenrheidiol.

Gwasanaethau optegydd

Mae gennych hawl i optegydd ymweld â chi yn y cartref os byddwch angen hyn. Efallai y codir tâl am y gwasanaeth hwn. Siaradwch gyda Rheolwr y Cartref neu aelod o'ch tîm staff am ragor o wybodaeth.



Welcome Pack
your guide to services & living well

Cymorth gofal iechyd

Parhad....



Gwasanaethau deintyddol

Mae'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol Gogledd Cymru 'Gwên am Byth' yn cefnogi pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl. Darperir archwiliad deintyddol blynyddol i chi gyda'r deintydd yn y cartref a bydd unrhyw driniaeth ddilynol sy'n ofynnol o ganlyniad yn cael ei threfnu naill ai mewn clinig cymunedol neu yn y cartref.

Mae cynlluniau gofal geneuol personol yn cael eu cynhyrchu ac mae eich tîm staff yn cael eu hyfforddi gan addysgwyr iechyd deintyddol a fydd hefyd yn ymweld â chi i fonitro hylendid y geg a helpu i gefnogi eich tîm staff i ddarparu'r gofal geneuol gorau.

Chwe Cham at Lwyddiant Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes

Rydym wedi cael cefnogaeth gan Gyngor Sir y Fflint a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i wella ein sgiliau a dealltwriaeth wrth gefnogi pobl sy'n lliniarol neu sydd wedi cael eu rhoi ar y llwybr gofal diwedd bywyd.

Mae'r rhaglen Chwe Cham i Lwyddiant yn Sir y Fflint wedi bod yn llwyddiannus iawn ac wedi arwain at ostyngiad mawr yn nifer y derbyniadau heb eu cynllunio ar gyfer pobl hŷn o gartrefi gofal i'r ysbyty, cynnydd mawr o ran cynllunio gofal datblygedig a gwelliannau mewn gwybodaeth a hyder staff. Siaradwch gyda rheolwr y cartref am ragor o wybodaeth.



Welcome Pack
your guide to services & living well

Mwy o wybodaeth

Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyngor Sir y Fflint, Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, Preswylfa,

Ffordd Hendy, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 1PZ

01352 803444 | SSDUTY@flintshire.gov.uk



Ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol tu allan i oriau, cysylltwch â'r Tîm
Dyletswydd Brys 08450 533116

Cyfathrebu

Eich cartref chi yw hwn ac er mwyn cymryd rhan lawn mewn bywyd yma rydym angen eich cefnogi i gyfathrebu'n dda. Dyma rai cysylltiadau defnyddiol.

Vision Support

Elusen ranbarthol sy'n gweithredu yng Ngogledd Cymru a Swydd Gaer sy'n darparu cymorth a gwasanaethau lleol i bobl â nam ar eu golwg.

Y Gymdeithas Strôc

Elusen strôc mwyaf blaenllaw y DU sy'n darparu amrywiaeth o Wasanaethau Bywyd ar ôl Strôc.

Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru

Sefydliad ranbarthol sy'n cefnogi holl bobl fyddar, wedi'u byddaru, trwm eu clyw a byddar a dall ar draws Gogledd Cymru yn ogystal â'u teuluoedd, ffrindiau a phobl sy'n eu cefnogi.

Y Gymdeithas Alzheimer's

Elusen cymorth ac ymchwil mwyaf blaenllaw y DU ar gyfer unrhyw un a effeithir arnynt gan ddementia.



Mwy o wybodaeth

Vision Support ac Uned Wybodaeth Symudol Vision Support
01244 381515 | www.visionsupport.org.uk

Y Gymdeithas Strôc
0303 3033 100 | www.stroke.org.uk

Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru
01492 530013 | www.deafassociation.btck.co.uk

Y Gymdeithas Alzheimer's
0300 222 1122 (Llinell Gymorth Genedlaethol Dementia) |
www.alzheimers.org.uk

Am wybodaeth leol
01352 700741 | flintshire@alzheimers.org.uk

Gwybodaeth a chysylltiadau allweddol

Rydym yn gwybod bod aros yn gysylltiedig â'r hyn sy'n bwysig i chi, i bobl sydd o bwys ac i'ch cymuned, yn gallu bod yn bwysig iawn i'ch iechyd a'ch lles

Dyma rai cysylltiadau a gwybodaeth a allai fod o ddefnydd i chi.

Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint

Siaradwch â Thîm Cyswllt Cyntaf y Gwasanaethau Cymdeithasol am wybodaeth, cyngor, atgyfeiriadau a chyfeirio ar gyfer gwasanaethau oedolion.

Dewis Cymru

Mae gwefan Dewis yn anelu i gefnogi lles oedolion drwy ddarparu gwybodaeth o safon o gronfa ddata gynhwysfawr o adnoddau a adeiladwyd o rwydwaith o ofal cymdeithasol,



iechyd, sefydliadau o'r trydydd sector a'r sector annibynnol. Mae Dewis yn anelu i gynorthwyo pobl i ddod o hyd i'r wybodaeth gywir, ar yr adeg gywir, wedi'i chyflwyno yn y ffordd gywir.

Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCIS) Mae NEWCIS yn darparu ystod eang o wybodaeth, cyngor a chefnogaeth i ofalwyr, gan gynnwys hyfforddiant, sesiynau galw heibio a chefnogaeth gyda gwirfoddoli, cyflogaeth a chyfleoedd addysgol. Mae NEWCIS yn rhoi llais i ofalwyr anffurfiol ac yn cynrychioli eu barn wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau.

Gweithgareddau

Mae gennym raglen o weithgareddau sy'n cymryd lle o fewn a'r tu allan i'r cartref. Siaradwch gyda Rheolwr y Cartref neu unrhyw aelod o'ch tîm staff am fanylion llawn.



Gwybodaeth a chysylltiadau allweddol

Parhad....

Caffis Cof

Mae Cyngor Sir y Fflint, mewn partneriaeth â sefydliadau a grwpiau lleol, wedi agor Caffis Cof mewn lleoliadau ledled y sir. Mae'r rhain yn hygyrch i breswylwyr cartrefi gofal a'u teuluoedd ac yn darparu amrywiaeth o weithgareddau plerusrus i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr mewn amgylchedd croesawgar ac ysgogol. Siaradwch gyda'r Rheolwr neu aelod o'r tîm staff i gael gwybodaeth am eich Caffi Cof lleol.

Beth sydd ar gael yn eich cymuned?

Siaradwch â'ch tîm staff a chyfeiriwch at y wybodaeth ychwanegol a ddarperir yn y Pecyn Croeso am wybodaeth ar gysylltiadau trafndiaeth, tafarndai a bwytai lleol, grwpiau cymdeithasol a gweithgaredd a manau o ddiddordeb i ymweld â nhw.

Cylchoedd Cefnogaeth

Nid oes gan bawb aelodau o'r teulu neu ffrindiau sy'n gallu eu cefnogi i wneud y pethau y maent am ei wneud, felly siaradwch gyda ni ynglŷn â sut y gallwn ddatblygu 'cylchoedd cefnogaeth' i chi, o ail-gysylltu gyda hen ffrindiau neu gymydog i wneud ffrindiau newydd gan ddefnyddio gwasanaethau gwirfoddolwyr o fewn y gymuned leol.



Welcome Pack
your guide to services & living well



Welcome Pack
your guide to services & living well

Gwybodaeth bellach

Cyngor Sir y Fflint, Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion, Preswylfa, Ffordd Hendy,
Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 1PZ
01352 803444 | SSDUTY@flintshire.gov.uk

Ar gyfer gwasanaeth y tu allan i oriau cysylltwch â **Thîm ar Ddyletswydd mewn
Argyfwng Gogledd Ddwyrain Cymru** ar **08450 533116**

Dewis

www.dewis.wales | www.ssiacymru.org.uk/7709



Newcis

01352 752525 | flintshire@newcis.org.uk | www.newcis.org.uk

Gofal a chefnogaeth yng Nghymru

laith Gymraeg

Ym mis Ebrill 2013, lansiodd Llywodraeth Cymru strategaeth a fwriadwyd i gryfhau gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ar draws Cymru. Gelwir y strategaeth hon yn 'Mwy na Geiriau' ac mae'n golygu os ydych yn siarad Cymraeg yna mae gennych yr hawl i gael eich gofal a chefnogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Siaradwch gyda ni ynglŷn â pha iaith rydych fwyaf cyfforddus yn ei defnyddio i gyfathrebu cyn i chi gyrraedd a byddwn yn ymdrechu i ddarparu gofal a chefnogaeth yn y Gymraeg pan fyddwch yn symud i mewn.

Datganiad hawliau ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru

Ysgrifennwyd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, mae'r ddogfen hon yn egluro hawliau pobl hŷn yng Nghymru. Mae'n nodi'r hyn y mae pobl hŷn yng Nghymru wedi'i ddweud y maent yn ei werthfawrogi a pha hawliau y maent yn teimlo y byddai'n eu cefnogi a'u diogelu. Cyfeiriwch at y copi amgaeedig.



Mwy o wybodaeth

I gael mwy o wybodaeth ar 'Datgelu hawliau i bobl hŷn yng Nghymru' ewch i:
<http://gov.wales/topics/health/publications/health/strategies/rights/?skip=1&lang=c>
Y

I gael mwy o wybodaeth am '*Mwy Na Geiriau*', ewch i:
<http://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?skip=1&lang=c>
Y

I gael mwy o wybodaeth ar sut i gael mynediad i gyngor a chefnogaeth leol gyda'r defnydd o'r iaith Gymraeg, ewch i: <http://www.flvc.org.uk/en/members/mentor-iaith-sir-y-fflint>

neu cysylltwch â **Menter Iaith Sir Y Fflint** ar:
01352 744040



Gwneud penderfyniadau

Deddf Galluedd Meddyliol

Mae Deddf Galluedd Meddyliol (2005) yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar ran oedolion 16 oed a throsodd.

Mae meddu ar allu meddyliol yn golygu bod unigolyn yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain. Os nad ydych yn gallu gwneud eich penderfyniadau eich hun ar ryw adeg yn y dyfodol, bydd angen i rywun arall wneud penderfyniadau ar eich rhan, a gallai'r rhain fod yn benderfyniadau am eich arian neu eich iechyd, gofal ac anghenion cymorth

Efallai y bydd gan rai pobl y gallu i wneud penderfyniadau am rai pethau, ond nid eraill, neu efallai y bydd eu gallu i wneud penderfyniadau yn newid o ddydd i ddydd. Gall cymryd amser i ddeall neu gyfathrebu gael ei gamgymryd am ddiffyg gallu meddyliol, ond nid yw dementia, er enghraifft, yn golygu bod rhywun yn methu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Pan fydd rhywun yn cael anhawster i gyfleu penderfyniad, dylai ymgais bob amser gael ei wneud i oresgyn yr anawsterau hynny a helpu'r unigolyn i benderfynu drostynt eu hunain.

Wrth ddefnyddio'r Ddeddf Galluedd Meddyliol mae'n rhaid i bobl ddechrau i ffwrdd gan feddwl bod pawb yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain ac mae'n rhaid iddynt roi'r holl gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau. Ni ddylai unrhyw un gael ei atal rhag gwneud penderfyniad oherwydd bod rhywun arall yn meddwl ei fod yn anghywir neu'n ddrwg.

Cyn y gall rhywun wneud penderfyniad ar eich rhan, mae'n rhaid iddynt gredu nad ydych yn gallu gwneud y penderfyniad hwnnw dros eich hun, ac mae'n rhaid iddynt wneud yn siŵr eu bod yn gweithredu er eich lles chi. Efallai y bydd yna adegau pan fydd rhywun angen gofyn am gyngor cyfreithiol neu

feddygol ar p'un a oes gennych y gallu meddyliol i wneud penderfyniad, neu a ddylid gweithredu o dan atwrneiaeth arhosol yn barhaol.

Gwneud penderfyniadau

Parhad....

Atwrneiaeth Arhosol

Mae atwrneiaeth arhosol (AA) yn ffordd o roi'r awdurdod cyfreithiol i rywun yr ydych yn ymddiried ynddynt i wneud penderfyniadau ar eich rhan os nad oes gennych y galluedd meddyliol ar ryw adeg yn y dyfodol, neu nad ydych bellach yn dymuno gwneud penderfyniadau dros eich hun.

Cafodd AA eu cyflwyno ym mis Hydref 2007, gan ddisodli'r hen system o atwrneiaeth barhaus. Mae AB a grëwyd cyn Hydref 2007 yn parhau'n ddilys.

Mae dau fath o Atwrneiaeth Arhosol:

AA ar gyfer penderfyniadau ariannol

Gall hyn gael ei ddefnyddio pan fydd rhywun yn dal â gallu meddyliol. Gall atwrnai (y sawl sy'n gwneud penderfyniadau ar eich rhan) wneud penderfyniadau ar bethau fel prynu a gwerthu eiddo, talu'r morgais a biliau, buddsoddi arian a threfnu atgyweiriadau i'r eiddo.

Atwrneiaeth Arhosol ar gyfer penderfyniadau iechyd a gofal

Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau am ofal iechyd a lles personol a gellir ond ei ddefnyddio unwaith y bydd unigolyn wedi colli galluedd meddyliol. Gall atwrnai wneud penderfyniadau ar bethau fel lle rydych chi'n byw, eich gofal meddygol, yr hyn rydych yn ei fwyta, gyda phwy rydych yn dod i gysylltiad â nhw a pha fath o weithgareddau cymdeithasol y dylech gymryd rhan ynddynt.

Llys Gwarchod

Sefydlwyd y Llys Gwarchod newydd a sefydlwyd o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Gall wneud penderfyniadau ynglŷn ag

a oes gan bobl allu mewn perthynas â phenderfyniadau penodol, gwneud penderfyniadau ar eu rhan, penodi neu gael gwared ar bobl sy'n gwneud penderfyniadau ar ran pobl, a gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud ag Atwrneiaeth Arhosol ac Atwrneiaeth Barhaus.

Gwneud penderfyniadau

Parhad....

Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Cafodd trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid Deddf Galluedd Meddyliol eu rhoi ar waith yn 2009. Maent yn darparu fframwaith cyfreithiol sy'n diogelu pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal neu ysbytai sy'n agored i niwed oherwydd anhwylder meddyliol ac nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau am eu llety eu hunain ac anghenion gofal. O dan y Trefniadau Diogelu, gall pobl ond cael eu hamddifadu o'u rhyddid pan nad oes unrhyw ffordd arall i ofalu yn ddiogel amdanynt a bod asesiad wedi'i wneud o'r hyn sydd er y budd gorau iddynt.



Welcome Pack
your guide to services & living well

Mwy o wybodaeth

Am fwy o wybodaeth ar Atwrneiaeth Arhosol, ewch i:

http://www.ageuk.org.uk/Documents/EN-GB/Information-guides/AgeUKIG21_Powers_of_attorney_inf.pdf?dtrk=true

Gwasanaethau eirioli annibynnol

Efallai y bydd yna adegau pan fyddwch angen cymorth ychwanegol wrth wneud penderfyniadau a gwneud eich dymuniadau'n hysbys.

Mae eiriolaeth annibynnol yn ymwneud â siarad ar ran unigolion/grwpiau a'u cynorthwyo i gael llais ac i gael cymaint o ddewis a rheolaeth â phosibl dros eu bywydau eu hunain.

Ni fydd eiriolwr annibynnol yn gwneud penderfyniadau ar ran y person/ grŵp maent yn eu cefnogi, ond yn helpu'r person / grŵp i gael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud dewisiadau am eu hamgylchiadau a chefnogi'r unigolyn/grŵp i roi eu dewisiadau ar draws i eraill. Gall eiriolwr annibynnol siarad ar ran bobl nad ydynt yn gallu gwneud hynny drostynt eu hunain.

Mwy o wybodaeth

Am fwy o wybodaeth ar wasanaethau eiriolaeth lleol, gallwch gysylltu â:

Gwasanaethau Eiriolaeth Gogledd Ddwyrain Cymru

01352 759332 | www.asnew.org.uk | advocacy@asnew.org.uk

Age Connects Gogledd Ddwyrain Cymru

08450 549969 | www.acnew.org.uk | info@acnew.org.uk

Cymdeithas Alzheimer's Sir y Fflint

01352 700741 | www.alzheimersociety.org.uk | flintshire@alzheimers.org.uk

Sut i gwyno neu fynegi pryder

O bryd i'w gilydd efallai y bydd gennych bryderon neu'n teimlo'n anhapus am rywbeth sydd wedi digwydd yn y cartref.

Sut i wneud cwyn

Er ein bod yn ymdrechu i ddarparu gofal o'r safonau uchaf posibl gall fod yna adegau pan fyddwch yn teimlo'n anhapus ac yn dymuno cofrestru eich pryder neu gwyn. Peidiwch â phoeni na theimlo'n bryderus ynglŷn â chyflwyno cwyn i ni, os nad ydym yn cael gwybod, nid ydym yn gallu datrys y mater. Mae gennym ein gweithdrefn gwyno a byddwn yn gweithio tuag at ddatrys eich cwyn os gallwn. Os, fodd bynnag, nad ydych am gwyno yn uniongyrchol i ni, neu os ydych yn credu bod y mater yn ddifrifol ac mae angen ei godi yn rhywle arall, mae Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint yn gweithredu gweithdrefn sylwadau a chwynion statudol.

Diogelu

Gall pobl gael eu cam-drin mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Gall cam-drin fod yn unrhyw un neu sawl un o'r canlynol; esgeulustod corfforol, rhywiol, seicolegol, ariannol neu faterol, cam-drin ar sail hil, cam-drin dieithryn. Gall unrhyw un gam-drin,

hyd yn oed perthynas, ffrind neu weithiwr gofal.

Mwy o wybodaeth

Am ragor o fanylion am gwynion neu i wneud cwyn yn uniongyrchol, cysylltwch ag:
**Ian MacLaren, Swyddog Cwynion, Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug CH7 6NN | ian.maclaren@flintshire.gov.uk**

Os ydych yn bryderus bod person hŷn yn cael ei gam-drin, cysylltwch â:
Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint | 01352 803444
**Llinell Gymorth Gweithredu ar Gam-drin Pobl Hŷn | 0808 808
8141 Age Connects Gogledd Ddwyrain Cymru | 0845 054 9969**

Os oes gennych unrhyw adborth cyffredinol, positif neu negyddol, cysylltwch â:
Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint
01352 702672 | contract.commissioning@flintshire.gov.uk

Os byddwch yn amau bod rhywun wedi troseddu, cysylltwch â **Heddlu Gogledd Cymru ar
101 neu mewn argyfwng 999.**